

RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod hybrid o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ddydd Iau, 24 Medi 2026.

Yn bresennol: Y Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Jackie Lewis (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans (gadawodd y cyfarfod am 2.00 pm), Celfyn Furlong, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R LI Jones, A M Jones, G O Jones (gadawodd y cyfarfod am 2.05 pm), Dyfed Wyn Jones, Euryr Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Jon Paul Taylor (gadawodd y cyfarfod am 3.15 pm), Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Ieuan Williams a Liz Wood

Hefyd yn Bresennol: Mr Trefor Owen - Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ar gyfer eitem 6)

(1.00 o'r gloch yf - 4.35 o'r gloch yf)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1. Cofnodion
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:- - Cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd ar 12 Mai 2026. - Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 13 Awst, 2026.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2. Datganiad o Ddiddordeb
PENDERFYNIAD	Bu'r Cyngorydd Neville Evans ddatgan diddordeb personol yn Eitem 11 - Ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr ond yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais. Bu'r Cyngorydd Celfyn Furlong ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 11 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr ond ar ôl derbyn caniatâd arbennig gan y Panel Caniatâd Arbennig o'r Pwyllgor Safonau ar 15 Mehefin, 2026 roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth ond nid pleidleisio ar yr eitem. Bu'r Cyngorydd John Ifan Jones ddatgan

	diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu yn gysylltiedig ag Eitem 4 - Ymgynghoriad ar yr Ardoll i Ymwelwyr a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais. Bu'r Cynghorydd Jackie Lewis ddatgan diddordeb personol yn Eitem 8 - Adroddiad Blynnyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/2026. Bu'r Cynghorydd Derek Owen ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 11 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr ond ar ôl derbyn caniatâd arbennig gan y Panel Caniatâd Arbennig o'r Pwyllgor Safonau ar 14 Medi, 2026 roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth ond nid pleidleisio ar yr eitem. Bu'r Cynghorydd Alun Roberts ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 11 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr ond ar ôl derbyn caniatâd arbennig gan y Panel Caniatâd Arbennig o'r Pwyllgor Safonau ar 24 Gorffennaf, 2026 roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais. Bu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ddatgan diddordeb personol yn eitem 14 - Adolygiad o'r Strwythur Arweinyddol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais. Bu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ddatgan diddordeb personol yn eitem 11 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr. Bu'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd ddatgan diddordeb personol yn eitem 14 - Adolygiad o'r Strwythur Arweinyddol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.
--	--

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4. Cyflwyno Deisebau
PENDERFYNIAD	Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5. Adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynnyddol ar gyfer 2025/26
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD, yn unfrydol, i gymeradwyo'r Adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynnyddol ar gyfer 2025/2026.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2025/26
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD yn unfrydol: • Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-26; • Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2026/2027 tra'n derbyn y gallai rhai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	7. Newid i'r Cyfansoddiad - diwygio tymor swydd aelodau lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd yn unfrydol cymeradwyo'r gwelliant arfaethedig i'r Cyfansoddiad a newid y cyfnod a ganiateir i aelodau lleyg wasanaethu ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	8. Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/26
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd yn unfrydol derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/26.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	9. Dileu elw o ofal plant - Cynlluniau digonolrwydd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd gohirio'r eitem tan y Cyngor Llawn a gynhelir ym mis Rhagfyr, 2026.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	10. Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025/2026
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD yn unfrydol: • Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini a Throsolwg ar gyfer

	2025/26; - Nodi'r cynnydd parhaus a wnaed o ran gweithredu ein taith Sgriwtini ac effaith hynny ar ymarfer; - Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2026 a Mai 2027.
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11. Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- - Na ddylai'r Cyngor fabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr gan ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector twristiaeth ar hyn o bryd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau effaith. - Y dylai'r Cyngor fonitro, adolygu ac ystyried y dystiolaeth ar effaith yr Ardoll Ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sydd wedi dewis mabwysiadu'r Ardoll, ac unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol. - Y dylai'r Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Arweinydd, ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ddiweddar. Dylid rhannu llythyr at Lywodraeth Cymru gyda'r holl aelodau etholedig.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12. Newid i gasgliadau ailgylchu a gwastraff
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD :- - Parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith pob 3 wythnos ond drwy ddechrau casglu biniau du 180 litr newydd, yn hytrach na'r biniau 240 litr presennol, yn 2029. - Creu mwy o ofod ar gyfer ailgylchu erbyn 2029 drwy: - gasglu cardfwrdd a phapur gyda'i gilydd yn rhan uchaf y trolibocs. - cynnig opsiynau storio ychwanegol ar gyfer ailgylchu cardfwrdd a/ neu plastig caled a chaniau ychwanegol.

	• Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth ynglŷn ag ailgylchu ac ailddefnyddio. • Ymchwilio i'r posibilrwydd o ailgylchu mwy o ddeunyddiau yn cynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill. • Symud ymlaen i ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid i Llywodraeth Cymru.
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13. Arolwg Cymunedol o drefniadau etholiadol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo ymgynghoriad o 8 wythnos ar y cynigion drafft a nodwyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	14. Adolygiad o'r strwythur arweinyddiaeth
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- • Cymeradwyo'r cynnig i wahanu cyfrifoldebau presennol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; • Cymeradwyo sefydlu swydd benodol a newydd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; • Cymeradwyo'r strwythur arfaethedig a nodir yn Atodiad 1. • Wrth ystyried yr uchod, nodi'r risgiau strategol, llywodraethu a gwydnwch sy'n gysylltiedig â chadw'r trefniadau presennol. • Cymeradwyo'r cynnig i newid strwythur presennol y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, a chreu dau wasanaeth o'r newydd. • Cymeradwyo sefydlu swydd Pennaeth Gwasanaeth a fydd yn arwain y Gwasanaeth newydd. • Cymeradwyo'r strwythur arfaethedig a nodir yn Atodiadau 2 a 3.